Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adolygiad dilynol ynghylch caffael

# **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Blwyddyn archwilio:** 2015

**Cyhoeddwyd:** Tachwedd 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 437A2015

# Statws yr adroddiad

Nid chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr cyflogedig arall yn ei swyddogaeth unigol nac o ran unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@wao.gov.uk.

Matthew Edwards, Alan Hughes, Kelly Lovitt a Mandy Townsend oedd y tîm a gyflawnodd y gwaith, dan arweiniad Mike Usher.

# Cynnwys

Aeth y Bwrdd Iechyd yn groes i reolaethau mewnol wrth ddyfarnu nifer o gontractau. Torrodd reolau caffael yr Undeb Ewropeaidd mewn tri achos a cheir perygl y bydd yn gwneud hyn mewn pedwerydd achos. Roedd diffygion yn offeryn olrhain Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd yn golygu hefyd bod y sicrwydd a roddwyd gan reolwyr ynglŷn â rhoi ein hargymhellion caffael blaenorol ar waith yn anghywir.


| | |
|---|---|
| Adroddiad Cryno | |
| Crynodeb | 4 |
| Argymhellion | 6 |
| Adroddiad manwl | |
| Nid yw'r weithdrefn ar gyfer hepgor Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn cael ei defnyddio'n briodol bob amser | 10 |
| Aeth staff y Bwrdd Iechyd yn groes i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynllun Dirprwyo ffurfiol y Bwrdd wrth awdurdodi hepgoriadau o Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog | 11 |
| Dylai staff y Bwrdd Iechyd fod wedi ystyried tendrau drwy weithdrefnau caffael Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd mewn rhai achosion; aeth tri achos y tu hwnt i drothwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd a cheir perygl y bydd pedwerydd achos yn gwneud hynny | 13 |
| Er i staff y Bwrdd Iechyd esbonio rhesymau sydd efallai'n ddealladwy am y diffyg cydymffurfio a nodwyd yn y rhan fwyaf o achosion, ceir cyfleoedd i gryfhau llywodraethu a gwella tryloywder y broses o wneud penderfyniadau | 14 |
| Roedd diffygion yn Offeryn Olrhain Argymhellion y Pwyllgor Archwilio yn golygu bod y sicrwydd a roddwyd ynglŷn â rhoi ein hargymhellion caffael blaenorol ar waith yn anghywir, ond mae gwaith y Bwrdd Iechyd o ddiwygio ei broses yn mynd rhagddo'n dda | 16 |
| Atodiadau | |
| Rheolau Caffael y Bwrdd Iechyd | 19 |
| Gweithdrefn y Bwrdd Iechyd ar gyfer defnyddio a chwblhau 'Cais i Hepgor Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog' | 20 |
| Crynodeb cyffredinol o ddiffyg cydymffurfiad â rheolaethau mewnol wrth ddyfarnu contractau | 23 |
| [CELWYD] | 24 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1. Mae gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) reolau eglur ynglŷn â chaffael a nodir yn ei Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (CASau) a'i Reolau Sefydlog cymeradwy. Mae CASau'r Bwrdd Iechyd yn bodloni'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Gwerth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, sydd yn eu tro'n adlewyrchu Rheoliadau Llywodraeth y DU a Chyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd. Mae manylion y rhain yn Atodiad 1. Mae Adran Gaffael Cydwasanaethau GIG Cymru (Gwasanaethau Caffael) ar gael i gynnig cyngor a chymorth arbenigol i holl staff y Bwrdd Iechyd wrth brynu nwyddau a gwasanaethau.
2. Wrth wneud ein gwaith archwilio blynyddol yn y Bwrdd Iechyd, mae Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (SRhA) yn ei gwneud yn ofynnol i ni feddu ar ddealltwriaeth o amgylchedd rheoli'r endid, gan gynnwys pa un a yw'r rheolaethau'n cael eu tanseilio gan ddiffygion o ran y modd y gweithredir y rheolaethau (SRhA 315). Mae SRhA 240 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddilyn gweithdrefnau archwilio mewn ymateb i risgiau a nodwyd o reolwyr yn diystyru rheolaethau.
3. Cynhaliwyd adolygiad caffael blaenorol ar y cyd ag adran Archwilio Mewnol Betsi Cadwaladr ddechrau 2013. Adroddwyd ein canfyddiadau ym mis Awst 2013, pan ddaethom i'r casgliad fod y Bwrdd Iechyd wedi mynd yn groes i'w CASau ei hun o ran tri chontract ymgynghori a oedd yn werth cyfanswm o tua £97,000. Hefyd, roedd perygl y byddai'r Bwrdd Iechyd yn torri rheolau caffael yr Undeb Ewropeaidd a adnabyddir fel trothwy caffael Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) o ran un contract arall. O ganlyniad i'n hadolygiad, ni chafodd rhagor o daliadau cytundebol eu gwneud ar gyfer y contract mewn perygl.
4. Ers ein harchwiliad blaenorol, gwnaed y Bwrdd Iechyd yn destun proses uwchgyfeirio ac ymyrraeth Llywodraeth Cymru, oherwydd amrywiaeth o bryderon llywodraethu a pherfformiad sylweddol. Penodwyd aelodau newydd i'r Bwrdd a gweithredwyr newydd gyda'r disgwyliad y byddai gwelliannau'n cael eu cyflawni'n fuan. Roedd problemau hysbys o ran cynllunio, perfformiad a llywodraethu a oedd yn gofyn am gamau brys a rhai bylchau a nodwyd o ran capasiti i gefnogi'r tîm arweinyddiaeth gweithredol i gyflawni'r agenda hon. Felly, roedd staff y Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael felly â nifer o heriau sylweddol yr oedd yn rhaid rhoi sylw brys iddynt.
5. Ddechrau 2015, ystyriodd y Pwyllgor Archwilio ddiweddariad i'r Offeryn Olrhain Argymhellion. Canfu ein hadolygiad o offeryn olrhain archwilio allanol y Bwrdd Iechyd ei fod yn anghyflawn ac mewn rhai achosion nid oedd yn cefnogi statws gweithredu ein hargymhellion blaenorol yn ddigonol. Roedd hyn yn golygu bod y sicrwydd a roddwyd gan reolwyr ynglŷn â rhoi ein hargymhellion caffael blaenorol ar waith yn anghywir. Yn hytrach na dim ond dilyn hynt yr argymhellion manwl hynny, penderfynwyd cynnal profion â phwyslais ar gontractau a ddyfarnwyd. Dewiswyd 20 contract a ddyfarnwyd o dan Hepgoriadau Tendr Sengl (HTSau) gennym felly, o'r cyfnod rhwng Hydref 2013 a Chwefror 2015, i benderfynu a chawsant eu dyfarnu'n unol â CASau a Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd. Mae'n bwysig nodi na chafodd yr 20 trafodyn a archwiliwyd eu dewis ar hap, ac felly nid yw'r gyfran o drafodion a oedd yn cydymffurfio/ddim yn

cydymffurfio y nodwyd o’n profion yn cynrychioli trafodion y Bwrdd Iechyd yn gyffredinol.

**6.** Derbyniwyd ac adolygwyd y gwaith papur ‘Cais i Hepgor CAS’ ar gyfer pob contract a archwiliwyd ac anfonebau a dogfennau contract cysylltiedig. Ein prif lwybr ymholi oedd: ‘A yw’r gweithdrefnau ceisiadau i hepgor CASau yn cael eu dilyn ac a yw ein hargymhellion archwilio blaenorol wedi cael eu rhoi ar waith?’

**7.** Yn seiliedig ar ganlyniadau’r profion archwilio hyn, ein casgliadau cyffredinol yw bod y Bwrdd Iechyd wedi mynd yn groes i reolaethau mewnol wrth ddyfarnu sawl contract. Torrodd reolau caffael yr Undeb Ewropeaidd mewn tri achos ac mae perygl iddo wneud hynny mewn pedwerydd achos. Yn ein barn ni mae osgoi gweithdrefnau caffael yn tanseilio safonau proffesiynol a llywodraethu da ac yn peri risg i enw da’r Bwrdd. Yn ychwanegol at hyn, nodwyd diffygion yn Offeryn Olrhain Argymhellion y Pwyllgor Archwilio.

**8.** Canfuwyd yn benodol:

- Nad yw’r weithdrefn ar gyfer hepgor CASau bob amser yn cael ei defnyddio’n briodol.
- Bod staff y Bwrdd Iechyd wedi mynd yn groes i CASau a Chynllun Dirprwyo ffurfiol y Bwrdd wrth awdurdodi hepgoriadau CASau.
- Y dylai staff y Bwrdd Iechyd fod wedi ystyried tendrau trwy weithdrefnau caffael Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd mewn rhai achosion; aeth tri achos y tu hwnt i drothwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ac mae pedwerydd mewn perygl o wneud hynny.
- Er bod staff y Bwrdd Iechyd wedi esbonio rhesymau y gellid efallai eu deall am y diffyg cydymffurfio a nodwyd yn y rhan fwyaf o achosion, ceir cyfleoedd i gryfhau llywodraethu a gwella tryloywder y broses o wneud penderfyniadau.
- Roedd diffygion yn yr Offeryn Olrhain Argymhellion yn golygu bod y sicrwydd a roddwyd ynglŷn â rhoi ein hargymhellion caffael blaenorol ar waith yn anghywir, ond mae gwaith y Bwrdd Iechyd o ddiwygio ei broses olrhain yn mynd rhagddo’n dda.

**9.** O ganlyniad i’n gwaith archwilio, rydym wedi gwneud pum argymhelliad i’r Bwrdd Iechyd, fel a ganlyn.

# Argymhellion

| Argymhellion |
|---|
| A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd weithredu ar unwaith i fynd i'r afael â gweddill yr argymhellion o'n harchwiliad yn 2013. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau cydymffurfiad â CASau. Dylai:<br>• sicrhau bod pob rheolwr a deiliad cyfrif yn cael hyfforddiant gloywi ar gyfer CASau a chaffael yn fwy cyffredinol;<br>• hysbysebu'r rheolau sy'n ymwneud â chaffael yn eang i sicrhau bod staff sy'n ystyried caffael yn gofyn am gyngor gan y Gwasanaethau Caffael yn gynnar yn y broses; a<br>• chysylltu â'r Gwasanaethau Caffael mewn pob achos o gaffael nwyddau a gwasanaethau, gan sicrhau cydymffurfiad llawn felly â'r CASau a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006. |

**<u>Ymateb y Rheolwyr</u>:**

Mae'r argymhellion a wnaed yn wreiddiol yn yr adroddiad 2013 wedi cael eu hystyried yn ofalus, ac mae'r camau gweithredu i fynd i'r afael â rhain fel a ganlyn:

| | Dyddiad gweithredu targed |
|---|---|
| • Cyhoeddwyd Cytundebau Atebolrwydd i bob rheolwr cyllideb, gan amlinellu'n glir cyfrifoldebau rheolwyr cyllideb, gan gynnwys cyfrifoldebau caffael. Rydym wedi gofyn i reolwyr cyllideb lofnodi a chytuno ar y cytundebau hyn, a disgwylir i'r broses gael ei chyflawni dros y flwyddyn ariannol. | Mawrth 2016 |
| • Darparwyd llawlyfr rheolwr cyllideb i bob rheolwr gan ddarparu crynodeb o'r prif ofynion caffael a godir o CASau a gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd. | Wedi Cwblhau |
| • Lluniwyd cylchlythyr rheolwyr cyllideb rheolaidd, ac mae'r rhifyn cyntaf wedi'i ddosbarthu. Caiff hwn ei ddiweddaru yn rheolaidd i atgoffa rheolwyr cyllideb o'u cyfrifoldebau, gan gynnwys rhai yn ymwneud â chaffael, yng nghyd-destun y sefyllfa weithredol, strategol ac ariannol sy'n datblygu. | Wedi Cwblhau |
| • Hyfforddiant ystafell ddosbarth ac e-ddysgu ar gael i bob rheolwr cyllideb ledled y Bwrdd Iechyd. Caiff sesiynau hyfforddi eu trefnu ar draws y tri phrif safle yn barhaus. | Wedi Cwblhau |
| • Caiff pob achos o ddiffyg cydymffurfio â CASau neu CASau yn cael eu hepgor ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio bob chwarter. | Wedi Cwblhau |
| • Caiff adroddiadau am achosion o ddiffyg cydymffurfio â gwariant OJEU, neu fod achos o hynny bron â digwydd, yn cael eu hanfon at y Pwyllgor Archwilio bob chwarter o fis Mawrth 2016 ymlaen. | Mawrth 2016 |

## Argymhellion

A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio fframweithiau caffael cenedlaethol sy'n bodoli eisoes i weithredu'n gyflym ac yn ddiogel wrth ddyfarnu contractau a ystyrir yn rhai brys. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, darpariaeth ar gyfer 'Camau'r Cadeirydd' wrth gymeradwyo HTSau anghyffredin/dadleuol ac unrhyw gaffael sy'n fwy na'r trothwyon a nodwyd yng nghynllun dirprwyo'r Bwrdd Iechyd ar gyfer achosion cymeradwyo nad oes modd iddynt aros tan gyfarfod nesaf y Bwrdd neu'r Pwyllgor Archwilio.

**Ymateb y Rheolwyr:**

Derbyniwyd, gyda'r camau gweithredu wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

| | Dyddiad gweithredu targed |
|---|---|
| • Mae'r cynllun dirprwyo ariannol wedi cael ei ddiwygio a'i ddiweddaru ym mis Medi 2015 i egluro rolau a chyfrifoldebau. | Wedi Cwblhau |
| • Bydd cymeradwyo HTSau yn dilyn y broses ar gyfer cytuno ar gontractau, gyda phob hepgoriad hefyd yn cael ei adrodd i'r Cyfarwyddwr Cyllid: Cyllid Gweithredu a fydd un ai'n eu cymeradwyo neu'n uwchgyfeirio rhai y bernir yn anghyffredin neu'n ddadleuol i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid neu'r Prif Weithredwr fel sy'n briodol. Bydd uwchgyfeirio eitemau anghyffredin neu ddadleuol yn amodol ar y camau gweithredu a nodir fel ymateb i Argymhelliad 4. | Wedi Cwblhau |
| • Caiff pob HTS ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio yn ddiweddarach. | Wedi Cwblhau |

A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried a ddylid diwygio'r trothwyon presennol ar gyfer adrodd i'r Bwrdd (fel y nodir yn ei gynllun dirprwyo).

**Ymateb y Rheolwyr:**

Mae'r cynllun dirprwyo ariannol wedi cael ei ddiwygio a'i ddiweddaru, a chymeradwywyd y cynllun gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2015 i egluro rolau a chyfrifoldebau.

## Argymhellion

A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod pob cam gweithredu caffael anghyffredin/dadleuol, gan gynnwys defnyddio HTSau (e.e. oherwydd brys neu gynllunio gwael), yn cael ei adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd un ai ymlaen llaw neu ar gyfer cymeradwyo yn ddiweddarach (gan gynnwys cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer defnyddio 'Camau'r Cadeirydd').

**Ymateb y Rheolwyr:**

Rydym yn llawn dderbyn ysbryd yr argymhelliad hwn, ond rydym yn awyddus i sicrhau nad yw agenda strategol y Bwrdd yn cael ei lethu'n ormodol gan faterion y gall eu dirprwyo'n synhwyrol ar gyfer sylw priodol gan rywun arall. Yn unol â dirprwyaethau presennol, mae gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer pob HTS dros £1 miliwn, ac rydym yn sicrhau bod pob HTS yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio yn ddiweddarach. Fodd bynnag, i gryfhau ein trefniadau cymeradwyo, bydd y rheolyddion canlynol ar waith o 1 Chwefror 2016:

| | Dyddiad gweithredu targed |
|---|---|
| • Mae gofyn i'r Cyfarwyddwr Cyllid: Cyllid Gweithredu gymeradwyo pob HTS, a fydd yn pennu'r llofnodwr priodol ar gyfer materion anghyffredin neu ddadleuol ar ôl ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid. | Wedi Cwblhau, caiff diffiniadau eu rhannu â'r Pwyllgor Archwilio fis Mawrth 2016. |

- Caiff materion anghyffredin neu ddadleuol eu pennu fel a ganlyn ar gyfer HTSau yn y dyfodol a gymeradwyir ar ôl 1 Ionawr 2016:
  1. Profi gwerth
     - Mae'r hepgoriad dros y trothwy OJEU neu bydd yn mynd â gwariant cronnus dros 2 flynedd ar sail dreigl dros y trothwy OJEU (cyfeirio i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid);
     - Mae'r hepgoriad dros £500k neu bydd yn mynd â gwariant cronnus dros 2 flynedd ar sail dreigl dros £500k (cyfeirio i'r Tîm Gweithredol);
     - Mae'r hepgoriad dros £1m neu bydd yn mynd â gwariant cronnus dros 2 flynedd ar sail dreigl dros £1 miliwn (cyfeirio i'r Bwrdd);
  2. Profi cyflenwr (ar ben profi gwerth)
     - Mae'r hepgoriad ar gyfer cyflenwi cefnogaeth ymgynghoriaeth rheoli (cyfeirio i'r Prif Weithredwr drwy'r Tîm Gweithredol);
     - Mae'r hepgoriad ar gyfer cyflenwi gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer cleifion (cyfeirio i'r Prif Swyddog Gweithredu ar ôl ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Contractau).
  3. Profi cyllid (ar ben profi gwerth a phrofi cyflenwr)
     - Mae'r hepgoriad yn defnyddio Nawdd Elusennol ac mae dros £25k (cyfeirio i'r Pwyllgor Nawdd Elusennol).

| Argymhellion | |
|---|---|
| A5 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gysylltu â Gwasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) i roi eglurhad i bob corff GIG Cymru ynghylch y sefyllfa o fodolaeth a defnydd o restr cyflenwyr 'a gymeradwywyd ymlaen llaw' neu 'fframwaith' ar gyfer gwasanaethau y gallai fod eu hangen ar fyr rybudd, ac a yw taliadau contract cyfredol yn debygol o fynd yn groes i drothwyon OJEU. |

**<u>Ymateb y Rheolwyr</u>:**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ysgrifennu at NWSSP i ofyn am eglurhad ynghylch y mater hwn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei gamau gofynnol felly.

Sylwer: Nid ydym wedi gwneud argymhelliad ynglŷn ag Offeryn Olrhain Argymhellion y Pwyllgor Archwilio, gan fod ysgrifenyddiaeth y Bwrdd eisoes wedi cydnabod nad oedd yn addas i'r pwrpas ac maent wrthi'n diwygio'r cynnwys, y strwythur a'r broses cefnogi (gyda chyngor gennym ni ac Archwilio Mewnol).

# Adroddiad manwl

## Nid yw'r weithdrefn ar gyfer hepgor Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn cael ei defnyddio'n briodol bob amser

**10.** Mae gan y Bwrdd Iechyd weithdrefn ar gyfer defnyddio a chwblhau ceisiadau i hepgor CASau, fel yr amlinellir yn Atodiad 2. Ym mhob achos, mae'n rhaid i staff y Bwrdd Iechyd gwblhau ffurflen Cais i Hepgor Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (y ffurflen HTS) pan gaiff cais ei wneud i'r Gwasanaethau Caffael. Mae'n rhaid i'r ffurflen HTS wedi'i chwblhau nodi: gwerth y swm ariannol; pwy yw'r darpar gyflenwr; y nwyddau/gwasanaethau sydd eu hangen; costau; rhesymau pam y mae cais yn cael ei wneud i hepgor CASau; ac awdurdod priodol.

**11.** Mae'r ffurflenni HTS yn ddogfennau a reolir ac yn cynnwys canllawiau eglur i staff y Bwrdd Iechyd ar y defnydd priodol o geisiadau i hepgor CASau. Mae gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd yn datgan nad yw hepgor gweithdrefnau cystadleuol fel rheol yn dderbyniol ar sail brys yn unig. Mae'r weithdrefn yn disgrifio pryd y ceir defnyddio HTSau ac yn datgan bod yn rhaid eu cyfiawnhau'n llwyr a meddu ar resymau dilys dros eu cyfiawnhau. Mae'r ffurflenni HTS yn nodi'r pedwar amgylchiad canlynol pan ganiateir hepgoriadau:

- un cyflenwr yn unig;
- trefniadau dros dro cyn cynnal ymarfer tendro;
- cynnal a chadw offer presennol; a
- chais ôl-weithredol.

**12.** Dengys ein profion y defnyddiwyd HTSau dan amgylchiadau nad oeddynt yn cyd-fynd â gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd ei hun.

Tystiolaeth 1: Crynodeb o achosion pan na chodwyd HTSau yn unol â gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd (wedi'u nodi gyda ✘)

| Cyfeirnod y sampl | Rheswm annigonol dros ganiatáu HTS? | Defnyddio HTS i hwyluso taliadau am waith a wnaed eisoes? | Anwybyddu cyngor caffael? |
|---|---|---|---|
| 1 | ✘ | | ✘ |
| 2 | ✘ | ✘ | ✘ |
| 3 | ✘ | | ✘ |
| 4 | ✘ | ✘ | ✘ |
| 5 | | | ✘ |
| 6 | | | ✘ |

| Cyfeirnod y sampl | Rheswm annigonol dros ganiatáu HTS? | Defnyddio HTS i hwyluso taliadau am waith a wnaed eisoes? | Anwybyddu cyngor caffael? |
|---|---|---|---|
| 7 | ✘ | | ✘ |
| 8 | ✘ | | ✘ |
| 9 | ✘ | | ✘ |
| 13 | | ✘ | |
| 14 | | ✘ | ✘ |
| 15 | | | ✘ |
| 16 | | | ✘ |
| 18 | ✘ | | ✘ |
| 20 | ✘ | | ✘ |

Ffynhonnell y dystiolaeth: Dadansoddiad archwilydd o HTSau a brofwyd.

**13.** Canfuwyd fod 15 o'r 20 contract a brofwyd yn torri rheolau HTS. Gwelsom yn gyffredinol yn yr achosion hyn bod staff y Bwrdd Iechyd naill ai'n osgoi Gwasanaethau Caffael yn gyfan gwbl neu'n rhoi sylw annigonol i'w cyngor caffael, cyn comisiynu ac ar ôl cyflwyno'r HTS. Canfuwyd gennym mewn rhai achosion fod HTSau yn cael eu defnyddio fel modd o hwyluso taliadau am waith a wnaed eisoes, a'u bod wedi cael eu cymeradwyo'n groes i'r cyngor annibynnol a gafwyd gan y Gwasanaethau Caffael.

## Aeth staff y Bwrdd Iechyd yn groes i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynllun Dirprwyo ffurfiol y Bwrdd wrth awdurdodi hepgoriadau o Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog

**14.** Fel y nodir yn Atodiad 1, mae'r CASau a Chynllun Dirprwyo ffurfiol y Bwrdd yn cynnwys gweithdrefnau eglur y mae'n rhaid eu dilyn yn ôl cod ymddygiad y Bwrdd Iechyd ei hun, yn ogystal ag yn ôl safonau proffesiynol ehangach a Chod Cymru Gyfan ar gyfer Rheolwyr GIG.

**15.** Canfuwyd fod staff y Bwrdd Iechyd wedi mynd yn groes i'r CASau a'r Cynllun Dirprwyo trwy ddefnyddio ac awdurdodi hepgoriadau yn 10 o'r 20 o gontractau a archwiliwyd gennym (mae manylion pob un o'r 20 contract yn Atodiad 4). [ATODIAD WEDI'I GELU]

**16.** Yn benodol, ac yn groes i ofynion caffael ffurfiol y Bwrdd Iechyd, nodwyd:

- achosion lle ymddengys bod gweithredwyr defnyddio HTSau yn ddiofyn wrth ddyfarnu contractau, yn hytrach na chofnodi ystyriaeth o ran priodoldeb y dull hwn o gaffael (er enghraifft, [CELWYD]);
- achosion pan awdurdodwyd ceisiadau i hepgor CASau gan swyddogion amhriodol (er enghraifft, [CELWYD]);
- achosion o un person yn awdurdodi contractau yr oedd gofyn iddynt gael eu hawdurdodi gan y Bwrdd yn unol â'r Cynllun Dirprwyo ffurfiol, er enghraifft, contractau y rhagwelwyd y byddent werth dros £100,000 ar gyfer gwasanaethau arbenigol allanol fel ymgynghori, yn unol ag eitem 14 Cynllun Dirprwyo'r Bwrdd Iechyd (er enghraifft, [CELWYD]);
- achosion pan dderbyniwyd anfonebau i'w talu ar gyfer gwaith a wnaed eisoes, ac y cymerwyd camau HTS yn ôl-weithredol wedyn (er enghraifft, [CELWYD]); ac
- achosion pan wnaed cais am hepgoriadau, ond na chawsant eu cwblhau'n llawn neu eu dychwelyd wedi'u hawdurdodi. (er enghraifft, [CELWYD]).

Tystiolaeth 2: Dadansoddiad cryno o HTSau a brofwyd nad oeddent yn cydymffurfio â CASau (wedi'u nodi gyda ✘)

| Cyfeirnod y sampl | HTS heb ei awdurdodi'n gywir? | HTS heb ddilyn y gweithdrefnau cywir? | A gafwyd llofnodwyr priodol? | A oedd yr HTS wedi'i awdurdodi'n llawn? |
|---|---|---|---|---|
| 1 | ✘ | ✘ | | |
| 2 | | ✘ | ✘ | |
| 3 | | ✘ | | |
| 4 | | ✘ | | |
| 14 | | | ✘ | ✘ |
| 15 | | | | ✘ |
| 16 | | | | ✘ |
| 18 | | ✘ | | ✘ |
| 19 | | ✘ | | |

| Cyfeirnod y sampl | HTS heb ei awdurdodi'n gywir? | HTS heb ddilyn y gweithdrefnau cywir? | A gafwyd llofnodwyr priodol? | A oedd yr HTS wedi'i awdurdodi'n llawn? |
|---|---|---|---|---|
| 20 | | ✘ | | |

Ffynhonnell y dystiolaeth: Dadansoddiad archwilydd o HTSau a brofwyd.

## Dylai staff y Bwrdd Iechyd fod wedi ystyried tendrau drwy weithdrefnau caffael Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd mewn rhai achosion; aeth tri achos y tu hwnt i drothwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) a cheir perygl y bydd pedwerydd achos yn gwneud hynny

**17.** Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi sefydlu trothwyon OJEU, sydd wedi'u hymgorffori yng nghyfraith y DU, er mwyn sicrhau cystadleuaeth deg wrth i gyrff cyhoeddus ddyfarnu contractau. Er nad yw achosion o ddiffyg cydymffurfiad â throthwyon OJEU yn arwain yn awtomatig at erlyniad, maent yn rhoi'r Bwrdd Iechyd mewn perygl o heriau cyfreithiol a hawliadau am iawndal gan gwmnïau eraill a allai ddarparu'r gwasanaeth.

**18.** Canfuwyd gennym yr aethpwyd y tu hwnt i drothwyon OJEU mewn tri achos trwy ddefnyddio HTSau, gan ddangos bod staff y Bwrdd Iechyd wedi methu â rhoi ystyriaeth i'r cylch contract cyfan, fel sy'n ofynnol dan OJEU:

- Roedd contract ar gyfer [CELWYD] (prawf cyfeirnod [CELWYD]) yn is na throthwy OJEU yn wreiddiol – £14,889 – ond gwthiodd estyniadau a thaliadau dilynol werth y contract i tua £140,000, sy'n uwch na throthwy OJEU. Dywedodd swyddogion y Bwrdd Iechyd wrthym na ragwelwyd y posibilrwydd hwn ar adeg dyfarnu'r contract gwreiddiol, gan na allai'r Bwrdd Iechyd fod wedi rhagweld difrifoldeb y problemau a ddatgelwyd a'r angen dilynol i ragor o waith gael ei gomisiynu gan yr un contractwr.
- Roedd contract ar gyfer [CELWYD] a [CELWYD] (prawf cyfeirnod [CELWYD]) yn uwch na throthwy OJEU. Mae'n debygol y bydd y cyfanswm sy'n daladwy am wasanaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16 dros £750,000, yn cynnwys TAW, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y llythyr contract.
- Roedd contract i [CELWYD] (prawf cyfeirnod [CELWYD]) yn uwch na throthwy OJEU. £510,488 oedd y cyfanswm a dalwyd i'r cyflenwr ar 31 Mawrth 2015.

Tystiolaeth 3: Dadansoddiad cryno ddiffyg cydymffurfiad â throthwy OJEU

| Cyfeirnod y sampl | Gwasanaeth a ddarparwyd | Sylw |
|---|---|---|
| 2 | [CELWYD] | Roedd y taliad cychwynnol o £14,889 yn is na throthwy OJEU, ond aeth estyniadau a thaliadau dilynol â gwerth y contract i tua £140,000. Ni ragwelwyd hyn pan ddyfarnwyd y contract, oherwydd ni allai'r Bwrdd Iechyd fod wedi rhagweld difrifoldeb y problemau a ddatgelwyd. |
| 4 | [CELWYD] | Mae'n debygol mai £441,681.12, gan gynnwys TAW, fydd y cyfanswm sy'n daladwy am wasanaethau hyd at ddiwedd Mehefin 2015, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y llythyr contract. |
| 14 | [CELWYD] | £510,488 oedd y cyfanswm a dalwyd i'r cyflenwr ar 31 Mawrth 2015. |

Ffynhonnell y dystiolaeth: Dadansoddiad archwilydd o HTSau a brofwyd.

**19.** Datgelodd ein gwaith hefyd bod y Bwrdd Iechyd mewn perygl o fynd y tu hwnt i drothwy OJEU yn achos cyflenwr arall [CELWYD], os caiff yr holl waith a ragwelir ar hyn o bryd ei wneud. Mae'r contract hwn ar gyfer [CELWYD]. £95,600 oedd cyfanswm yr elfen gyntaf a'r ail elfen; bydd y drydedd elfen, os caiff ei chomisiynu, yn cynyddu gwerth y contract o £40,000 arall, gan fynd y tu hwnt i drothwy OJEU. Ar y dyddiad adrodd ym mis Medi 2015, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi mynd y tu hwnt i drothwy OJEU ar gyfer y contract.

## Er i staff y Bwrdd Iechyd esbonio rhesymau sydd efallai'n ddealladwy am y diffyg cydymffurfio a nodwyd yn y rhan fwyaf o achosion, ceir cyfleoedd i gryfhau llywodraethu a gwella tryloywder y broses o wneud penderfyniadau

**20.** Rydym wedi trafod canlyniadau ein profion archwilio gydag uwch swyddogion perthnasol y Bwrdd iechyd. Er eu bod wedi cadarnhau cywirdeb ffeithiol ein canfyddiadau, roeddent yn awyddus i bwysleisio i ni y cyd-destun y cymerwyd y camau caffael hyn yno.

**21.** Ym mis Hydref 2014, gwnaed y Bwrdd Iechyd yn destun amodau 'Ymyrraeth wedi'i Thargedu' o dan Brotocol Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth Llywodraeth Cymru, oherwydd amrywiaeth o bryderon llywodraethu a pherfformiad arwyddocaol[1]. Penodwyd aelodau

[1] Wedi hyn, ym mis Mai 2015, uwchgyfeiriwyd y Bwrdd Iechyd ymhellach i 'Fesurau Arbennig' gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

newydd i'r Bwrdd a gweithredwyr newydd â'r disgwyliad y byddai gwelliannau'n cael eu cyflawni'n gynnar, ac nid oedd pob un ohonynt yn gwbl gyfarwydd â gofynion caffael Llywodraeth Cymru. Roedd problemau hysbys o ran cynllunio, perfformiad a llywodraethu a oedd yn gofyn am gamau brys a bylchau a nodwyd o ran capasiti i gefnogi'r tîm arweinyddiaeth gweithredol i gyflawni'r agenda hon.

**22.** Yn ystod y cyfnod a oedd yn destun ein profion archwilio, roedd staff y Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael felly â nifer o heriau sylweddol yr oedd yn rhaid rhoi sylw brys iddynt. Ymddengys y gallai hyn fod wedi arwain at fwy o ddefnydd o HTSau na fyddai wedi bod yn wir fel arall. Er enghraifft, [CELWYD] (prawf cyfeirnod [CELWYD]). Roedd y Bwrdd Iechyd [CELWYD]. Arweiniodd hyn at benodi'r cyflenwr drwy HTS, yn hytrach na thrwy'r broses gystadleuol a fyddai'n ofynnol yn unol â gweithdrefnau caffael y Bwrdd Iechyd fel rheol. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym ei fod o'r farn na fyddai amserlenni caffael wedi galluogi iddo symud materion brys yn eu blaen yn gyflym.

**23.** Enghraifft arall oedd pan gyflwynwyd HTS fel cyfiawnhad dros roi mwy o waith i'r un cyflenwr yn hytrach na thrwy broses gystadleuol (prawf cyfeirnod [CELWYD]). Dywedodd staff y Bwrdd Iechyd wrthym eu bod wedi penderfynu bod parhad yn hanfodol i [CELWYD]. Er ein bod o'r farn bod y tebygolrwydd y byddai angen ymestyn y contract hwn yn eithaf rhagweladwy pan y'i dyfarnwyd yn ystod haf 2014, ni chymerodd y Bwrdd Iechyd unrhyw gamau i gywiro'r sefyllfa trwy ddilyn gweithdrefnau tendro/caffael cymeradwy fel y nodir yn ei CASau.

**24.** Nodwn nad yw canllawiau HTSau y Bwrdd Iechyd yn derbyn brys fel rheswm derbyniol am gyflwyno HTS. Er i staff y Bwrdd Iechyd ein sicrhau bod y Bwrdd yn gwbl ymwybodol o benodiadau cyflenwyr ac yn cefnogi'r penderfyniadau a wnaed, canfuom nad oedd y penderfyniadau hyn (na chymeradwyaeth ôl-weithredol y Bwrdd, pan roedd ei angen) wedi'u cofnodi yng nghofnodion y Bwrdd.

**25.** O ystyried y pwysau a deimlwyd gan y gweithredwyr a oedd newydd eu penodi i wneud newidiadau a datrys problemau hirsefydlog, dywedasant wrthym eu bod penderfynu'n gyffredinol penodi cyflenwyr yr oeddent eisoes yn gyfarwydd â nhw ac yr oeddent yn hyderus allai gyflawni mewn cyfnod byr, gan sicrhau hefyd bod cyn lleied o risg â phosibl o fethu â chyflawni.

**26.** Er y gallai rhai o'r penodiadau brys hyn o gyflenwyr fod yn ddealladwy felly, ceir camau y gellid ac y dylid fod wedi eu cymryd pan roedd angen adnewyddu neu ymestyn contractau, er mwyn helpu i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau gwerth am arian. Gallai'r rhain fod wedi cynnwys cam 'oedi ac adolygu' ffurfiol i ystyried materion fel ail-gytuno costau a pha un a oedd yn briodol chwilio am gyflenwyr eraill.

**27.** Dywedodd staff y Bwrdd Iechyd wrthym hefyd fod rhai o’r cyflenwyr ar restrau fframwaith eisoes a’u bod felly’n bodloni meini prawf ansawdd a gwerth am arian. Fodd bynnag, dylai’r Bwrdd Iechyd gadarnhau os yw'r cyflenwyr arfaethedig ar restr fframwaith sy’n bodoli eisoes drwy geisio cyngor gan y Gwasanaethau Caffael, fel sy’n briodol.

## Roedd diffygion yn Offeryn Olrhain Argymhellion y Pwyllgor Archwilio yn golygu bod y sicrwydd a roddwyd ynglŷn â rhoi ein hargymhellion caffael blaenorol ar waith yn anghywir, ond mae gwaith y Bwrdd Iechyd o ddiwygio ei broses yn mynd rhagddo’n dda

**28.** Roedd y Pwyllgor Archwilio yn cael diweddariadau rheolaidd gan reolwyr ynglŷn â rhoi ein hargymhellion archwilio mewnol ac allanol ar waith drwy offeryn olrhain. Dengys ein hadolygiad o offeryn olrhain archwilio allanol y Bwrdd Iechyd ei fod yn anghyflawn ac mewn rhai achosion nid oedd yn cefnogi statws gweithredu ein hargymhellion blaenorol yn ddigonol.

**29.** Ddechrau 2015, ystyriodd y Pwyllgor Archwilio ddiweddariad o’r ‘Offeryn Olrhain Argymhellion’, a nododd fod y Bwrdd Iechyd wedi rhoi’r holl argymhellion yn adroddiad caffael 2013 ar waith.

**30.** Mae canlyniadau ein profion archwilio ar 20 contract yn awgrymu’n gryf nad yw’r Offeryn Olrhain yn adlewyrchu’r sefyllfa wirioneddol yn gywir o ran ein hargymhellion blaenorol ynglŷn â chaffael, fel y nodir yn Nhystiolaeth 4.

**31.** Cydnabu ysgrifenyddiaeth y Bwrdd nad oedd yr offeryn olrhain yn addas i’r pwrpas ac mae ei waith o ddiwygio’r cynnwys, y strwythur a’r broses cefnogi gyda chyngor gennym ni ac Archwilio Mewnol yn mynd rhagddo’n dda.

Tystiolaeth 4: Crynodeb o gynnydd o ran rhoi’r argymhellion yn ein hadolygiad caffael ar y cyd blaenorol ar waith.

| Argymhelliad blaenorol | Gweithredwyd? | Sylw |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 1**<br><br>Rhaid i’r Bwrdd Iechyd sicrhau cydymffurfiad â CASau. Dylai: | | Bu rhywfaint o gynnydd o ran rhoi ein hargymhelliad ar waith, ond dengys ein profion archwilio bod angen mwy o waith.<br>Yn benodol: |
| • sicrhau bod pob deiliad cyllideb a rheolwr yn derbyn hyfforddiant diweddaru o ran CASau a chaffael yn fwy cyffredinol; | Yn rhannol | • sicrhau bod yr holl staff perthnasol, gan gynnwys cyfarwyddwyr gweithredol, yn derbyn hyfforddiant diweddaru ar gaffael; |

| Argymhelliad blaenorol | Gweithredwyd? | Sylw |
|---|---|---|
| • hysbysebu'r rheolau'n ymwneud â chaffael yn eang i sicrhau bod staff sy'n ystyried caffael yn gofyn am gyngor gan y Gwasanaethau Caffael yn gynnar yn y broses; a | Do | • mae'r Bwrdd Iechyd wedi hysbysebu'r rheolau'n ymwneud â chaffael yn y llawlyfr i reolwyr cyllideb, ond<br>• nid oedd staff bob amser yn gofyn am gyngor gan y Gwasanaethau Caffael yn gynnar yn y broses; a |
| • cysylltu â'r Gwasanaethau Caffael bob amser wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau gan sicrhau cydymffurfiad llawn â CASau a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 | Naddo | • ni chysylltir â'r Gwasanaethau Caffael ar bob achlysur wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau. |
| **Argymhelliad 2**<br><br>Mae angen diweddaru cynllun cadw a dirprwyo'r Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu gwahanu bob amser o ran caffael gwasanaethau a chontractau gan swyddogion a awdurdodwyd i hepgor y CASau. | Yn rhannol | Diweddarwyd y cynllun dirprwyo ym mis Ionawr 2015, ond nid yw'r canllawiau 'cais i hepgor CASau' yn cyfeirio'n benodol at yr angen i wahanu dyletswyddau bob amser. |
| **Argymhelliad 3**<br><br>Dylai'r Gwasanaethau Caffael a'r Bwrdd Iechyd ddatblygu proses a gytunwyd ar gyfer uwchgyfeirio achosion pan nad yw ceisiadau i hepgor CASau yn dilyn y drefn briodol. | Yn rhannol | Mae'r Gwasanaethau Caffael a'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu gweithdrefnau ar gyfer uwchgyfeirio, ond mae ein gwaith wedi datgelu nifer o achosion pan na ddilynwyd y weithdrefn. |
| **Argymhelliad 4**<br><br>Pob ffurflen HTS i gael ei nodi'n eglur fel 'dogfen a reolir' er mwyn osgoi ailadrodd. | Do | Mae gan bob ffurflen HTS gyfeirnod unigryw erbyn hyn. |
| **Argymhelliad 5**<br><br>Ni ddylai'r Bwrdd Iechyd gomisiynu mwy o waith gan ORS os nad yw'n cynnal ymarfer tendro cystadleuol llawn yn unol â gofynion OJEU. | Do | Er na aeth y Bwrdd Iechyd yn groes i OJEU wrth gomisiynu gwaith gan ORS, mae ein profion archwilio wedi canfod achosion eraill pan aethpwyd y tu hwnt i drothwyon OJEU. |

Ffynhonnell y dystiolaeth: Crynodeb archwilydd o'r dystiolaeth.

32. Mae angen cymryd camau pellach i roi ein hargymhellion blaenorol ar waith yn llawn. (Tystiolaeth 4).

33. O ganlyniad i'n canfyddiadau, rydym wedi dod i'r casgliad bod angen rhagor o wella ar weithdrefnau caffael y Bwrdd Iechyd ar adeg ein hadolygiad archwilio diweddaraf, gan nad ydynt yn ei alluogi i ddyfarnu contractau brys ar gyfer gwasanaethau allanol mewn modd sy'n gymesur ag egwyddorion llywodraethu corfforaethol cadarn.

34. O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad arall i'r Bwrdd Iechyd:

**Argymhellion**

A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd gymryd camau brys i roi sylw i weddill yr argymhellion o'n harchwiliad yn 2013. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau cydymffurfiad â CASau. Dylai:

- sicrhau bod pob rheolwr a deiliad cyfrif yn cael hyfforddiant gloywi ar gyfer CASau a chaffael yn fwy cyffredinol;
- hysbysebu'r rheolau sy'n ymwneud â chaffael yn eang i sicrhau bod staff sy'n ystyried caffael yn gofyn am gyngor gan y Gwasanaethau Caffael yn gynnar yn y broses; a
- chysylltu â'r Gwasanaethau Caffael mewn pob achos o gaffael nwyddau a gwasanaethau, gan sicrhau cydymffurfiad llawn felly â'r CASau a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006.

A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio fframweithiau caffael cenedlaethol sy'n bodoli eisoes i weithredu'n gyflym ac yn ddiogel wrth ddyfarnu contractau a ystyrir yn rhai brys. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, darpariaeth ar gyfer 'Camau'r Cadeirydd' o ran cymeradwyo HTSau anghyffredin/dadleuol ac unrhyw gaffael dros y trothwyon a nodwyd yng nghynllun dirprwyo'r Bwrdd Iechyd ar gyfer achosion cymeradwyo nad oes modd iddynt aros tan gyfarfod nesaf y Bwrdd neu'r Pwyllgor Archwilio.

A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried a oes angen diwygio'r trothwyon presennol ar gyfer adrodd i'r Bwrdd (fel y nodir yn ei Gynllun Dirprwyo).

A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau yr hysbysir y Bwrdd yn ffurfiol am bob cam caffael anghyffredin/dadleuol, gan gynnwys y defnydd o HTSau (e.e. oherwydd brys neu gynllunio gwael), naill ai ymlaen llaw neu ar gyfer cymeradwyaeth ôl-weithredol (gan gynnwys cymeradwyaeth y Bwrdd o'r defnydd o 'Gamau'r Cadeirydd').

A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd gydgysylltu â Gwasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i egluro i holl gyrff GIG Cymru y sefyllfa o ran bodolaeth a defnydd o restr cyflenwyr 'a gymeradwywyd ymlaen llaw' neu 'fframwaith' ar gyfer gwasanaethau y gallai fod eu hangen ar fyr rybudd, ac a yw taliadau contract cyfredol yn debygol o fynd yn groes i drothwyon OJEU.

# Atodiad 1

## Rheolau Caffael y Bwrdd Iechyd

Bob blwyddyn, mae cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario mwy na £5 biliwn ar gaffael nwyddau, gwasanaethau a phrosiectau cyfalaf. Cyflwynodd Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 (Rheoliadau 2006) ofynion Cyfarwyddeb Caffael Cyfunol yr UE (y Gyfarwyddeb Caffael) yn y DU a daeth i rym ym mis Ionawr 2006. Nod y Gyfarwyddeb Caffael yw sicrhau bod:

- cyrff cyhoeddus yn sicrhau gwerth am arian trwy eu gweithgareddau caffael; a
- bod y gystadleuaeth yn deg rhwng cyflenwyr.

Daeth Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (Diwygiadau) 2009 i rym ym mis Rhagfyr 2009. Roedd y rhain yn diwygio Rheoliadau 2006 i fodloni gofynion Cyfarwyddeb Unioni Cam yr UE ac yn nodi'r camau y ceir eu cymryd pan nad yw cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'r gyfraith. Daeth Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygiadau Amrywiol) 2011 i rym ar 1 Hydref 2011. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau pellach i Reoliadau 2006 o ran terfynau amser i hawlwyr ddechrau achos cyfreithiol. Mae rheolau cymorth gwladwriaethol yr Undeb Ewropeaidd yn llywodraethu'r modd y defnyddir gwariant cyhoeddus (neu wladwriaethol) i gefnogi mathau penodol o weithgarwch economaidd. Mae rheolau cymorth gwladwriaethol yn gallu bod yn gymhleth a gallai diffyg cydymffurfiad arwain at adfer cymorth gan y rhai sydd wedi ei dderbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn llwybr caffael cydnabyddedig i sicrhau bod pawb sy'n ymgymryd â gweithgareddau caffael yn deall ac yn dilyn yr un gweithdrefnau. Mae wedi cyflwyno canllawiau ar sawl achlysur i annog cyrff sector cyhoeddus Cymru i fabwysiadu canllawiau tebyg. Mae hyn yn cyflawni swyddogaeth allweddol o ran darparu nwyddau a gwasanaethau ar gyfer GIG Cymru yn effeithlon a chost-effeithiol.


Bwriedir i'r rhain fod yn briodol i werth nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu prynu, ac, ers mis Ionawr 2014, fe'u gweinyddwyd gan Gwerth Cymru:

- **Llai na £5,000**[2]: nid yw pryniannau sy'n is na'r gwerth hwn yn destun cystadleuaeth a dim ond un dyfynbris gan un cyflenwr sy'n ofynnol ar eu cyfer.
- **£5,001 i £24,999**: mae angen dyfynbrisiau ysgrifenedig gan o leiaf tri chyflenwr ar gyfer nwyddau a gwasanaethau yn yr ystod pris hwn.
- **£25,000 i £101,323**: os bydd gwerth yr hyn a brynir yn fwy na £25,000 ond yn llai na £101,323, yna mae angen tendr cystadleuol llawn dan amodau cynigion cudd. Gwahoddir rhwng pump ac wyth o gyflenwyr i dendro gan ddefnyddio'r dogfennau 'gwahoddiad i dendro' ar wefan Gwerth Cymru, a hysbysebir yr holl ofynion hyn ar wefan 'GwerthwchiGymru'.
- **Mwy na £111,676**: mae contractau nwyddau a gwasanaethau sy'n fwy na'r ffigur hwn, yn ogystal â chontractau ymchwil a datblygu sy'n fwy na £172,514, a chontractau gwaith sy'n fwy na £4,322,012 i gyd yn ddarostyngedig i Reoliadau Caffael Cyhoeddus yr UE a rhaid eu dyfarnu trwy broses Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.

[2] Nid yw'r holl ffigyrau trothwy £ yn cynnwys TAW

# Atodiad 2

## Gweithdrefn y Bwrdd Iechyd ar gyfer defnyddio a chwblhau ‘Ceisiadau i Hepgor Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog’



**Eitemau y Gofynnwyd Amdanynt:** Rhestrwch y nwyddau a/neu y gwasanaethau rydych yn dymuno eu prynu yma, gan roi manylion llawn. Dylech atodi unrhyw wybodaeth ychwanegol i'r ffurflen yn ôl y gofyn.

↓

**Cost Fesul Uned:** Nodwch gost/au fesul uned y nwyddau a/neu y gwasanaethau sydd eu hangen. Atodwch unrhyw ohebiaeth gan y cyflenwr os oes os gwnaed cais am hon ymlaen llaw ac y'i derbyniwyd.

↓

**Cyfanswm gan gynnwys yr holl gostau + TAW:** Nodwch gyfanswm y gost gan sicrhau bod yr holl gostau sydd i'w talu wedi'u cynnwys, fel costau darparu, gweithredu, TAW ac ati.

↓

**Rheswm am y cais am hepgoriad:** Mae angen cyfiawnhau'n llawn pam rydych yn ceisio hepgor cystadleuaeth yn yr adran hon. Rhaid bod gennych reswm priodol am y cyfiawnhad, h.y. ni dderbynnir brys fel rheswm derbyniol am hepgor yr hawl i gystadleuaeth fel rheol. Dylech atodi'r holl ohebiaeth ategol gyda'r cais am hepgoriad er mwyn dangos trywydd eglur ac archwiliadwy o sut y gwnaethpwyd y penderfyniad i ofyn am hepgoriad. Bydd angen i chi lofnodi/printio eich enw a'r dyddiad ynghyd â llofnod eich rheolwr uniongyrchol cyn dychwelyd y cais am hepgoriad trwy e-bost, ffacs neu'r post i'r personél Caffael ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

↓


**Cadarnhau cymeradwyaeth neu wrthodiad:**
**Caffael:** Byddwn yn ystyried ac yn nodi'r canlynol ar ôl derbyn y cais am hepgoriad:

1. A oes unrhyw geisiadau HTS wedi eu gwneud gan yr un cyflenwr; nwyddau/gwasanaethau o'r blaen?
2. Gwerth, os oes hepgoriadau blaenorol, rhestrwch y gwerthoedd a dangoswch eu gwerth crynswth, a yw'n fwy na throthwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd? A yw'r HTS penodol hwn yn uwch na throthwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd?
3. A yw'r rheswm am y cais am hepgoriad yn ddilys/derbyniol?
4. Rhowch Ddyfynbris swyddogol i'r cyflenwr er mwyn cadarnhau costau. Sicrhewch fod cyflenwyr yn ymwybodol y bydd unrhyw achos o gaffael yn ddarostyngedig i Amodau Contract y GIG.

Pan fydd y wybodaeth hon wedi ei chasglu a'i chofnodi yn yr adran hon, rhaid i'r Rheolwr Busnes perthnasol neu, yn ei absenoldeb, y Dirprwy Bennaeth Caffael, gadarnhau ei fod wedi derbyn y cais am hepgoriad, gan gefnogi neu wrthod y cais. PWYSIG: Dylid cael awdurdodiad gan y Pennaeth/Dirprwy Bennaeth Caffael ar ôl cael cymeradwyaeth y Rheolwr Busnes perthnasol.

↓

**Caffael:** Ar gyfer Ceisiadau i Hepgor Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog sy'n uwch na'r trothwy tendro, anfonwch y cais am hepgoriad mewn e-bost at yr unigolyn perthnasol sy'n gwneud y penderfyniad ar ran y Sefydliad hwnnw yn seiliedig ar ei Gynllun Dirprwyo awdurdodiad (y Cyfarwyddwr Cyllid neu'r Prif Weithredwr fel rheol), ar ôl iddynt gael eu hawdurdodi gan y Pennaeth/Dirprwy Bennaeth Caffael.


**Camau gweithredu gan y Bwrdd Iechyd:** Bydd y sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn adolygu'r cais ac yn nodi sylwadau'r adran Gaffael cyn ei gymeradwyo neu ei wrthod. Rhaid i gymeradwyaeth fod yn ysgrifenedig trwy lofnodi'r ffurflen a'i dychwelyd i'r Adran Gaffael trwy e-bost, ffacs neu'r post. RHAID i'r Adran Gaffael dderbyn cais am hepgoriad wedi ei lofnodi'n llawn. PWYSIG: mae'n hanfodol bod y Gwasanaeth Caffael yn cael llofnod ar y ddogfen, ni fydd e-bost ategol yn ddigonol.
**Caffael:** Ar ôl derbyn cais, dylech hysbyswch, trwy e-bost, y gofynnwr gwreiddiol er mwyn creu trefn Oracle neu rif cais. Sicrhewch eich bod yn diweddaru ac yn llenwi'r gofrestr cais am hepgoriad wedyn. Rhaid cadw'r cais am hepgoriad yn y ffolder gywir ar y gweinydd. Rhaid sganio a chadw copïau caled. Rhaid dinistrio copïau caled yn gyfrinachol wedyn.
**Adrodd:** Bydd Sefydliadau partner yn cael eu hysbysu am weithgarwch o ran ceisiadau am hepgoriad yn ôl y gofyn. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys:
• Nifer yr Hepgoriadau Tendr Sengl a gymeradwywyd fesul sefydliad
• Teitl y Caffaeliad (nwyddau/gwasanaethau)
• Cyfanswm gwerth y caffaeliad
• Yr adran a wnaeth gais am Hepgoriad Tendr Sengl

# Atodiad 3

## Crynodeb cyffredinol o ddiffyg cydymffurfiad â rheolaethau mewnol wrth ddyfarnu contractau

| Cyfeirnod sampl | Ni chyflwynwyd HTSau yn unol â gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd? | HTSau nad oeddent yn cydymffurfio â CASau? | Aethpwyd y tu hwnt i drothwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd? |
|---|---|---|---|
| 1 | ✘ | ✘ | |
| 2 | ✘ | ✘ | ✘ |
| 3 | ✘ | ✘ | |
| 4 | ✘ | ✘ | ✘ |
| 5 | ✘ | | |
| 6 | ✘ | | |
| 7 | ✘ | | |
| 8 | ✘ | | |
| 9 | ✘ | | |
| 10 | Ni nodwyd problemau | | |
| 11 | Ni nodwyd problemau | | |
| 12 | Ni nodwyd problemau | | |
| 13 | ✘ | | |
| 14 | ✘ | ✘ | ✘ |
| 15 | ✘ | ✘ | |
| 16 | ✘ | ✘ | |
| 17 | Ni nodwyd problemau | | |
| 18 | ✘ | ✘ | |
| 19 | | ✘ | |
| 20 | ✘ | ✘ | |

# Atodiad 4

[CELWYD]

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru